# Astudiaeth Achos Llythrennedd Carbon

**Mawrth 2026**

## Cefndir

Elusen yw Amgueddfa Cymru, ac mae ein teulu o saith amgueddfa a chanolfan gasgliadau wedi'u gwasgaru ar draws Cymru. Fe wnaethon ni ddechrau ein taith Llythrennedd Carbon yn 2018, datgan argyfwng hinsawdd a natur yn 2019 a datblygu ein pecyn hyfforddi mewnol yn 2020. Derbynion ni achrediad Sefydliad Carbon Llythrennog lefel Efydd ym mis Hydref 2021, a lefel Arian ym mis Mawrth 2023. Mae dros 400 aelod o staff wedi cwblhau ein hyfforddiant Llythrennedd Carbon.

## Cyn Hyfforddiant Llythrennedd Carbon

Cyn ymgymryd â Hyfforddiant Llythrennedd Carbon, roedd yr Amgueddfa yn cynnal Fforwm Datblygu Cynaliadwy gyda'r nod o lywio ymrwymiadau cynaliadwyedd y sefydliad. Er bod y Fforwm wedi gwneud cynnydd i ryw raddau, doedd ganddo ddim yr awdurdod angenrheidiol ac nid oedd yn sicrhau digon o ymgysylltiad ar lefel uwch. Roedd mynychu hyfforddiant gan Cynnal Cymru yn 2018 yn sbardun i newid, a arweiniodd at gynnal brecwast Hyfforddiant Llythrennedd Carbon yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gyda Dave Coleman ac amrywiaeth o sefydliadau oedd â diddordeb mewn dechrau eu taith Llythrennedd Carbon. Roedd y digwyddiad hwn yn alwad sylweddol i weithredu, gan dynnu sylw at werth yr hyfforddiant a'r angen brys i'w gyflwyno i'n staff.

## Yn ystod Hyfforddiant Llythrennedd Carbon

Mae'r hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno (ac yn parhau i gael ei gyflwyno!) drwy gyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a rhithiol, yn Gymraeg ac yn Saesneg. I ysbrydoli pobl ar y cwrs, rydyn ni'n rhannu enghreifftiau o addewidion blaenorol ac yn annog grwpiau i drafod ar ôl ymarfer dychmygu'r dyfodol. Mae'r ymarfer ôl troed carbon yn helpu i addysgu pobl sut allen nhw gael yr effaith fwyaf. Un her oedd hwyluso sesiynau gyda staff sy'n gweithio'n rhan amser, ar shifftiau neu mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd, heb effeithio'n negyddol ar unigolion na'r ddarpariaeth o wasanaethau ar safleoedd yr Amgueddfa. Mae'r Uwch Dîm Gweithredol wedi ymrwymo'n gryf i Lythrennedd Carbon, ac rydym wedi gweithio gyda safleoedd unigol i deilwra'r ddarpariaeth.







Sesiwn wyneb yn wyneb yn Sain Ffagan, Ionawr 2026

## Ar ôl Hyfforddiant Llythrennedd Carbon

Mae cyflwyno Hyfforddiant Llythrennedd Carbon yn datgan yn glir ac yn fwriadol bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i Amgueddfa Cymru. Mae morâl y staff wedi gwella o ganlyniad i hyn. Mae staff a oedd wedi'u digalonni ac yn bryderus am yr argyfwng hinsawdd wedi cael offer a llwyfan i drafod y pwnc gyda chydweithwyr ac ymwelwyr, tra'n cael eu grymuso i gymryd camau cadarnhaol. Mae cyfuno arferion gwaith newydd â phrojectau datgarboneiddio wedi arwain at ostyngiad o 31% yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau dros y chwe blynedd diwethaf. Ein nod yw parhau i ddarparu Hyfforddiant Llythrennedd Carbon i'r holl staff ac annog gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd gyda'n staff, gwirfoddolwyr, sefydliadau eraill a'r cyhoedd.




Allyriadau CO2e blynyddol 2019/20 – 2024/25

**Dyfyniad:** Cynyddodd Hyfforddiant Llythrennedd Carbon fy ymwybyddiaeth o effaith fy ngweithredoedd a dewisiadau ar ein hamgylchedd, ond mae hefyd wedi fy ngrymuso i wneud penderfyniadau gwybodus a hyrwyddo arferion cynaliadwy yn y gwaith a gartref. *Gwenllian Thomas, Cadwraethydd Ataliol*